

# Swyddogaeth Tribiwnlys y Gymraeg

**KEITH BUSH CF**

Llywydd Tribiwnlys y Gymraeg  
Awst 2016

© keith bush 2016

(ni ddylid trin unrhyw ddatganiad fel un awdurdodol)



# Deall swyddogaeth y Tribiwnlys



Tribiwnlys y Gymraeg - rhan o beirianwaith **safonau'r Gymraeg** a sefydlwyd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Er mwyn deall swyddogaeth y Tribiwnlys (a'i sefyllfa bresennol) rhaid deall y gyfundrefn safonau.

# Rhoi safonau yn eu cyd-destun



## Welsh Language Act 1967

‘Whereas it is proper that the Welsh language should be freely used by those who so desire in the hearing of legal proceedings in Wales and Monmouthshire; that **further provision should be made for the use of that language, with the like effect as English, in the conduct of other official or public business there;**’

‘In any legal proceeding in Wales or Monmouthshire the Welsh language may be spoken by any party, witness or other person who desires to use it...’

‘Where any enactment passed either before or after this Act specifies the form of any document or any form of words ...to be ...used **for an official or public purpose**, the appropriate Minister may by order prescribe a **version of the document or words in Welsh, or partly in Welsh and partly in English, for use for that purpose.**’

# Rhoi safonau yn eu cyd-destun



## Welsh Language Act 1993

5 (1) Every public body to which a notice is given under section 7 below and which—

(a) provides services to the public in Wales, or

(b) exercises statutory functions in relation to the provision by other public bodies of services to the public in Wales,

shall prepare a **scheme** specifying the measures which it proposes to take, for the purpose mentioned in subsection (2) below, as to the use of the Welsh language in connection with the provision of those services, or of such of them as are specified in the notice.

(2) The purpose referred to in subsection (1) above is that of giving effect, **so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that in the conduct of public business and the administration of justice in Wales the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.**

3 (1) The (Welsh Language) Board shall have the function of **promoting and facilitating the use of the Welsh language.)**

# Rhou safonau yn eu cyd-destun



## Government of Wales Act 2006

**78.**-(1) The Welsh Ministers must adopt a **strategy** (“the Welsh language strategy”) setting out how they propose to **promote and facilitate** the use of the Welsh language.

(2) The Welsh Ministers must adopt a **scheme** (“the Welsh language scheme”) specifying measures which they propose to take, for the purpose mentioned in subsection (3), as to the use of the Welsh language in connection with the provision of services to the public in Wales by them, or by others who—

(a) are acting as servants or agents of the Crown, or

(b) are public bodies (within the meaning of Part 2 of the Welsh Language Act 1993 (c. 38)).

(3) The purpose referred to in subsection (2) is that of giving effect, **so far as is both appropriate in the circumstances and reasonably practicable, to the principle that in the conduct of public business in Wales the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality.**



# Rhoi safonau yn eu cyd-destun

## Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Dim datganiad cyffredinol yn diffinio statws y Gymraeg, ond:

Teitl hir:

“...i wneud darpariaeth ynglŷn â **hybu a hwyluso** defnyddio’r Gymraeg ac ynglŷn â pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg...”

a gweler (isod) pwrpas ‘safonau’.



# Safonau

- safonau ymddygiad (mewn perthynas â'r Gymraeg);
- yn medru cael eu cymhwyso i gyrff (neu swyddogion) cyhoeddus penodol neu gyrff (neu swyddogion) preifat penodol sy'n cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus;
- yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth (WG wedi dewis gwneud cyfres o reoliadau – pob un yn ymwneud â sector penodol, e.e. llywodraeth ganol a lleol, heddluoedd a gwasanaethau tân ac achub);
- Comisiynydd y Gymraeg yn gyfrifol am gymhwyso safonau i gyrff penodol ac am orfodi cydymffurfiaeth â safonau (trwy, er enghraifft, gosod cosb sifil am beidio â chydymffurfio â safon).



# Mathau o Safon

5 math o safon – pob un yn ymwneud â math gwahanol o weithgarwch:

- Safonau cyflenwi gwasanaeth;
- Safonau llunio polisi;
- Safonau gweithredu (defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle);
- Safonau hybu (defnydd o'r Gymraeg);
- Safonau cadw cofnodion.





# Testun a chynnwys safonau

- Nid yw'r Mesur yn rhagnodi, yn gyffredinol, pa fath o weithgarwch y dylai safonau rheoleiddio na chynnwys safonau;
- Ond yn achos safonau cyflenwi gwasanaethau rhaid i WG (o leiaf) pennu safonau mewn perthynas â rhai gweithgareddau.



# Testun a chynnwys safonau

Rhaid i safonau cyflenwi gwasanaethau delio (o leiaf) â'r materion hyn:

- gohebiaeth;
- galwadau ffôn;
- llinellau cymorth a chanolfannau galwadau;
- cyfarfodydd personol;
- cyfarfodydd cyhoeddus;
- cyhoeddusrwydd a hysbysebu;
- arddangosfeydd cyhoeddus;
- cyhoeddiadau;
- ffurflenni;
- gwefannau a gwasanaethau ar-lein;
- arwyddion;
- derbyn ymwelwyr;
- hysbysiadau swyddogol;
- dyfarnu grantiau;
- dyfarnu contractau;
- codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.



# Pwrpas Safonau

Rhywfaint o amrywiaeth rhwng gwahanol fathau o safon, ond yn fras, mae pwrpas safonau'n cael ei ddiffinio gan y Mesur fel:

- **'hybu neu hwyluso'** defnydd o'r Gymraeg; neu
- sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin **yn llai ffafriol** na'r Saesneg.

Mae'n glir, felly, bod y ddeddfwriaeth bresennol (yn unol â'r cynsail a osodwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1967, ac a atgyfnerthwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Deddf Llywodraeth Cymru 2006) yn gosod **hybu a hwyluso** defnydd o'r Gymraeg fel amcan polisi cyhoeddus mewn perthynas â gweinyddiaeth gyhoeddus.

# Gosod Safonau



- hysbysiadau cydymffurfio'n cael eu rhoi gan y Comisiynydd;
- yn pennu'r safonau hynny (o blith y rhai a bennwyd gan y Rheoliadau perthnasol ar gyfer y sector perthnasol) y bydd yn rhaid i gorff cydymffurfio â hwy;
- yn pennu'r dyddiad ('diwrnod gosod') pan fydd y gofyniad i gydymffurfio yn dod i rym (dim llai na 6 mis ar ôl rhoi'r hysbysiad);
- hawl gan y sawl sy'n derbyn hysbysiad cydymffurfio i herio safonau penodol trwy ofyn i'r Comisiynydd i ddyfarnu a yw gofyniad i gydymffurfio â'r safon hwnnw'n 'afresymol neu'n anghymesur' (adran 56) – os felly, rhaid i'r Comisiynydd ddiwygio'r hysbysiad;
- rhaid gwneud cais i'r Comisiynydd am ddyfarniad *cyn* y diwrnod gosod (oni bai fod newid sylweddol yn yr amgylchiadau wedi digwydd ers hynny).



# Gorfodi safonau


- Pŵer cyffredinol i'r Comisiynydd ymchwilio a yw person wedi methu â chydymffurfio â safon (adran 71);
- Proses cwynion ffurfiol i'r Comisiynydd (adran 93) gan aelod o'r cyhoedd (yn rhoi dyletswydd ar y Comisiynydd i ystyried a ddylid dechrau ymchwiliad ffurfiol);
- Rheolau statudol manwl ynglŷn ag ymddygiad ymchwiliadau (Atodlen 9).



# Gorfodi safonau

Pwerau'r Comisiynydd os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu, ar ôl ymchwiliad, bod corff wedi methu â chydymffurfio â safon:

- Peidio â chymryd unrhyw gam penodol;
- Sicrhau cyhoeddusrwydd i'r dyfarniad;
- Dod i 'gytundeb setlo';
- Gwneud argymhellion mewn perthynas ag ymddygiad y corff yn y dyfodol;
- Ei wneud yn ofynnol bod y corff yn paratoi cynllun gweithredu (i osgoi methiannau pellach);
- Ei wneud yn ofynnol bod y corff yn cymryd camau penodol i osgoi methiannau pellach;
- Gosod cosb sifil (ar hyn o bryd i fynnu i £5000)



# Tribiwnlys y Gymraeg

- Tribiwnlys annibynnol a sefydlwyd o dan Ran 7 o'r Mesur;
- Llywydd, aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg;
- Cynhaliaeth weinyddol gan Lywodraeth Cymru;
- Gwefan:  
<http://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/?lang=cy>
- Penodi Llywydd Awst 2014;
- Penodi aelodau eraill Ebrill 2015;
- Rheoliadau'r Tribiwnlys wedi dod i rym ar ddiwedd Ebrill 2015.



# Swyddogaethau Tribiwnlys y Gymraeg

- Apeliadau yn erbyn dyfarniadau'r Comisiynydd nad yw safonau'n 'afresymol neu'n anghymesur' (adran 58);
- Adolygiadau o benderfyniadau gan y Comisiynydd i beidio â chynnal ymchwiliad i gŵyn bod corff wedi peidio â chydymffurfio â safon (adran 103);
- Apeliadau yn erbyn dyfarniadau gan y Comisiynydd bod cyrff wedi methu â chydymffurfio â safon (adran 95(2));
- Apeliadau yn erbyn dyfarniadau gan y Comisiynydd nad yw corff wedi methu â chydymffurfio â safon (adran 99);
- Apeliadau gan gyrff yn erbyn camau gorfodi a osodwyd gan y Comisiynydd am fethu â chydymffurfio â safon (adran 95(4)).





# Hanes safonau hyd yma

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (mewn grym 31.3.15) yn gymwys i Weinidogion Cymru, Cynghorau Sir, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.

Hysbysiadau Cydymffurfio (26 ohonynt) wedi cael eu rhoi gan y Comisiynydd i bob un o'r cyrff uchod (30.9.15);

Y rhan fwyaf o'r safonau (sy'n amrywio rywfaint rhwng gwahanol gyrff) wedi dod i rym 30.3.16 (mwy o amser i gydymffurfio yn achos rhai safonau);

Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 2) 2016 (daeth i rym 16 Chwefror 2016) yn gymwys i 32 o gyrff cyhoeddus amrywiol.

Hysbysiadau Cydymffurfio bellach (25.7.16) wedi cael eu rhoi.

Y diwrnod gosod ar gyfer y cylch diweddaraf o hysbysiadau cydymffurfio yw 25.1.17.



# Hanes safonau hyd yma

15 Mawrth 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n:

- Cymeradwyo Rheoliadau Safonau'r Gymraeg  
(Rhif 4) (Tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru) a  
(Rhif 5) (Heddluoedd a Gwasanaethau Tân & Achub Cymru)
- Gwrthod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) (prifysgolion a cholegau addysg bellach).

25 Gorffennaf 2016

Hysbysiadau cydymffurfio wedi cael eu rhoi i gyrff sy'n dod o dan Reoliadau Rhif 2 a Rhif 4 gyda 25.1.17 yn ddiwrnod gosod (yn gyffredinol)

Y Dyfodol

- Y Comisiynydd yn bwriadu rhoi hysbysiadau cydymffurfio i'r gyrff sy'n dod o dan Reoliadau Rhif 5 erbyn diwedd Medi.
- Y llywodraeth i ail-ystyried safonau colegau a phrifysgolion (Rhif 3)?
- Safonau ar gyfer meysydd eraill, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd.
- **Apeliadau i'r Tribiwnlys?**



# Hanes safonau hyd yma

- Ceisiadau gan 9 awdurdod i'r Comisiynydd am ddyfarniadau a yw safonau'n afresymol neu'n anghymesur;
- Nifer o safonau unigol a gafodd eu herio gan awdurdod yn amrywio o 2 i 54;
- Effaith gwneud cais yw gohirio'r diwrnod gosod;
- Yn fras iawn mae pob hysbysiad cydymffurfio'n cynnwys tua 150 o safonau unigol – cyfanswm felly o tua 4000 o safonau wedi dod i rym ddiwedd mis Mawrth eleni a dim ond tua 100 wedi cael eu herio;
- Y Comisiynydd heb eto gyhoeddi ei phenderfyniad ynglŷn â'r heriau hyn.



# Hanes safonau hyd yma

- Mae dros 4000 o Safonau eisoes mewn grym;
- Tua 100 o Safonau wedi'u herio;
- Posibilrwydd o nifer sylweddol o apeliadau i'r Tribiwnlys os bydd y Comisiynydd yn dyfarnu nad yw'r Safonau cyntaf a heriwyd yn afresymol nac yn anghymesur;
- Gan fod y rhan fwyaf o Safonau sy'n perthyn i awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol a Llywodraeth Cymru eisoes mewn grym, mae'n bur debyg bod y peirianwaith ar gyfer gorfodi Safonau wedi dechrau gweithredu.

# Apeliadau i'r Tribiwnlys ers i safonau ddechrau dod i rym ar ddiwedd Mawrth 2016



Dau gais i'r Tribiwnlys yn unig hyd yn hyn, y ddau o dan adran 103 (apelio yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd i beidio ymchwilio i gwynion bod cyrff wedi methu â chydymffurfio â safonau:

- Y Comisiynydd wedi gwrthod derbyn bod cyfeiriad cyfrif Twitter yn cydymffurfio â gofyniad adran 93(5) bod yn rhaid i achwynydd roi cyfeiriad. Ar ol i'r achwynydd apelio i'r Tribiwnlys, rhoddodd y Comisiynydd ystyriaeth bellach, gan dderbyn bod y cyfeiriad yn cydymffurfio â'r Mesur. Tynnwyd y cais i'r Tribiwnlys yn ôl;
- Y Comisiynydd wedi penderfynu nad oedd safonau a oedd yn gymwys i gorff hefyd yn gymwys i gorff arall o dan berchnogaeth y corff cyntaf. Y Tribiwnlys yn gwrthod rhoi caniatâd i'r ceisydd herio penderfyniad y Comisiynydd - sail gyfreithiol penderfyniad y Comisiynydd yn ymddangos yn gywir (dim cais gan y ceisydd i'r Tribiwnlys ail-ystyried y penderfyniad yn ffurfiol).